OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 Rhif 3355 (Cy.294)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Blant sy'n cael eu Haddysg drwy Ddarpariaeth Amgen) (Cymru) 2009

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *17 Rhagfyr 2009* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *21 Rhagfyr 2009* |
| *Yn dod i rym - -* | *12 Ionawr 2010* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 537A, 537B a 569 o Ddeddf Addysg 1996(**1**), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

(**1**) 1996 p.56. Cafodd adran 537A ei mewnosod gan adran 20 o Ddeddf Addysg 1997 (p.44), a'i hamnewid gan baragraff 153 o Atodlen 30 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p.31). Mewnosodwyd adran 537B gan adran 164 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 (p.40). Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 537A a 569 o Ddeddf Addysg 1996 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac yna i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32). Trosglwyddwyd swyddogaethau o dan adran 537B i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd adran 180 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 ac yna i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.